# Cyfarfod Fforwm Gwirfoddolwyr: Cofnodion

## 24 Mawrth 2025, 2.00pm – 4.30pm, Ystafell Wen Llanion

**Presennol:**, Sally Boyton (SB), Joy Arkley (JA), Cyng. Mike James (MJ), Jon King (JK), Ellie Sherwin (ES) Helen Clarke (HC), Gordon Lewis (GL), David Fisher (DF), Julian Stanton (JS), Sally Ross (SR), Marie Sture (MS)

**Ymddiheuriadau:** Karin Howells, Granville Watson, Roy Partington

## 1. Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau

## 2. Diweddariadau o'r cyfarfod blaenorol

| Diweddariad | Camau Gweithredu |
|---|---|
| | |
| **Monitro llwybrau troed**<br>Cyfarfod blynyddol gyda Chris Taylor. Roedd yr hyfforddiant ar ddefnyddio meddalwedd wedi mynd yn dda, ond mae rhai cyfyngiadau ar yr ap yn achosi anhwylustod (signal, amseroedd llwytho, methu cael gafael ar adroddiadau blaenorol)<br>Byddai gwirfoddolwyr wedi hoffi cael rhagor o wybodaeth am y canlynol<br>• Pwy sy'n cael ei ddyrannu i fonitro pob llwybr, ac a oes unrhyw orgyffwrdd. A allai Gwirfoddolwr gydlynu hyn?<br>• Rhagor o arweiniad ar sut i raddio materion er mwyn sicrhau cysondeb ac atal gwaith diangen i'r tîm o wardeniaid.<br>• Does dim nodwedd cofnodi ar yr ap. Byddai diweddariadau ar amserlennu gwaith yn ddefnyddiol er mwyn osgoi dyblygu adroddiadau. | MJ i archwilio'r posibilrwydd o integreiddio pellach gyda'r tîm Mynediad i gefnogi gweithgareddau gwirfoddoli<br><br>SB i siarad â Chris Taylor<br>• Crynodeb a Map o'r ardal sy'n cael ei monitro.<br>• Cyfarfodydd mwy rheolaidd.<br>• Trafod y posibilrwydd o rôl wirfoddoli i gydlynu |
| **Teithiau cerdded llesiant**<br>Mae gwirfoddolwyr yn cwestiynu'r posibilrwydd o gael Gwirfoddolwyr yn arwain teithiau cerdded / partïon gwaith os nad oes Parcmon ar gael.<br>Mae asesiadau risg ar gyfer teithiau cerdded yn cael eu cwblhau gan reolwr llinell gwirfoddolwyr, a dylid eu rhannu. Mae'r holl wirfoddolwyr yn dod o dan bolisi yswiriant y sefydliad.<br>Nid yw cyfranogwyr bob amser wedi'u cofrestru, ac mae pryder oherwydd yn aml nid oes gan yr arweinwyr unrhyw wybodaeth gyswllt, na wybodaeth am iechyd. Bydd darn newydd o feddalwedd (Ticket Tailor) yn cael ei lansio'n fuan er mwyn galluogi cyfranogwyr i archebu lle mewn sesiynau, a dylai hyn ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen. Nid yw'r feddalwedd hon ar gael i wirfoddolwyr ar hyn o bryd. | SB – Siarad ag Angela Robinson i sicrhau bod gan arweinwyr fynediad at y feddalwedd gyda gwybodaeth am gyfranogwyr cyn i'r teithiau ddechrau.<br><br>JA – Adolygu'r mater o gael Gwirfoddolwyr yn arwain grwpiau fel rhan o'r adolygiad gwirfoddoli ehangach |

| | |
|---|---|
| | |

## 3. Diweddariad gan aelodau'r Fforwm

| Diweddariad | Camau Gweithredu |
|---|---|
| **Diweddaru fformat**<br>Mae'r diweddariadau'n tynnu sylw at yr amrywiaeth o weithgareddau sy'n cael eu cynnal gan Wirfoddolwyr, yn ogystal â'r gwahaniaeth anhygoel maen nhw'n ei wneud.<br>Cytunwyd y gallai templed sylfaenol ar gyfer y diweddariadau, gan gynnwys 'Pa gyfnod / Beth ddigwyddodd / Unrhyw Faterion', fod yn ddefnyddiol i rai ac y dylid cynnwys diweddariadau yn y cylchlythyr gwirfoddolwyr i gyfleu llais y gwirfoddolwr.<br>Mae gan y pwyllgor a'r staff ddiddordeb mawr mewn gwirfoddolwyr a'r cyfraniad y maent yn ei wneud. | MJ – Byddai'n hoffi cael copïau o'r Cofnodion a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w rhannu â'r Aelodau<br><br>SB – Templed a fformat wedi'u diweddaru ar gyfer cylchlythyr y Gwirfoddolwyr. |
| **Cofnodion Oriau**<br>**Better Impact** – Nid yw'r oriau mae gwirfoddolwyr yn eu cofnodi yn ymddangos mewn trefn amser yn 'Volunteer View', ac nid yw hynny'n effeithlon iawn pan fydd gwirfoddolwyr eisiau gwneud yn siŵr eu bod wedi cyflwyno eu holl weithgareddau. Mae SB eisoes wedi siarad â Better Impact ond nid yw hyn yn bosibl, oherwydd bodd y feddalwedd 'oddi ar y silff' yn gyfyngedig mewn rhai meysydd.<br>Er mwyn monitro digwyddiadau, mae angen cymeradwyo'r oriau sydd wedi'u cofnodi ar hyn o bryd. A oes modd cael gwared ar hyn i wneud pethau'n fwy effeithlon?<br><br>**Oriau Caeriw** – Mae gwirfoddolwyr yn llenwi ffurflen bapur ac yn ei rhoi Mark i gadarnhau'r oriau a'r tasgau maent wedi'u cwblhau. Nid yw'n ymddangos bod yr wybodaeth hon yn treiddio drwodd i'r ystadegau swyddogol, felly pam casglu'r wybodaeth hon? | SB – Tynnu cymeradwyaeth ar gyfer oriau a gofnodir I Better Impact.<br><br>SB – Holi Mark beth sy'n digwydd gyda'r ffurflenni, ac a oes modd delio â phethau'n fwy effeithlon.<br><br>JA – Ystyried pob un fel rhan o'r adolygiad gwirfoddoli ehangach |
| **Plannu**<br>Mae gwirfoddolwyr yn siomedig â'r diffyg cydnabyddiaeth neu gyswllt wyneb yn wyneb gan Dirfeddianwyr wrth gwblhau tasgau penodol, fel plannu coed ar raddfa fawr ar dir preifat.<br><br>Byddai gwirfoddolwyr yn awyddus i glywed a yw cyfraddau goroesi'r coed a gwrychoedd sy'n cael eu plannu yn cael eu monitro neu eu cofnodi. Mae'n bwysig gwneud hyn gan ei fod yn dangos gwerth y tasgau mae'r gwirfoddolwyr yn eu cyflawni ar gyfer byd natur. | A all cydnabyddiaeth a diolch wyneb yn wyneb fod yn rhan o'r cytundeb wrth archebu'r safleoedd?<br><br>JA – Siarad â Mary Chadwick / Swyddog Cyllid Allanol i weld a yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw ar gyfer adolygiadau cyllido. |
| **Bysiau mini**<br>Mae dau ddigwyddiad wedi bod lle mae bws mini naill ai heb fod ar gael neu wedi torri lawr wrth gludo grŵp o bobl. Cadarnhaodd SB, os bydd cerbyd yn torri lawr, y bydd cerbyd arall o'r fflyd yn cael ei anfon i gasglu'r bobl sydd arno. Mae'r polisi Defnyddio Cerbydau wedi cael ei ddiwygio'n ddiweddar ond mae'n bosibl y bydd angen | JA – Mae Llawlyfr Gyrwyr yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch ar 8 Ebrill, a bydd hwn yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad o'r ddogfen |

| | |
|---|---|
| grŵp ffocws i drafod y manylion, a dylai hefyd gynnwys achosion o dorri i lawr.<br><br>Mae gwirfoddolwyr yn synnu bod bws mini trydan 11 sedd wedi cael ei brynu ar gyfer Maes Tanio Castellmartin, ac maent yn cwestiynu a yw'n ddigon mawr ac yn addas ar gyfer y dirwedd. Mae gwaith atgyweirio wedi cael ei drefnu yn Staciau'r Heligog. | SB – Holi ynghylch addasrwydd y Bws Mini Trydan. |
| **Bathodynnau Pin Gwirfoddolwyr**<br>Diweddariad SB – Mae'r bathodynnau wedi cyrraedd ac maent ar gael dros dro i wirfoddolwyr newydd sy'n disgwyl am wisg. Cafodd y bathodynnau cyntaf eu rhoi i'r Gwirfoddolwyr Gweinyddol. Maent wedi cael derbyniad da hyd yma, ac maent wedi bod yn bwynt trafod ar gyfer cydnabod y rolau y mae gwirfoddolwyr yn eu cyflawni. | SB – Darparu bathodynnau i ragor o Wirfoddolwyr |
| **Trwyddedau Meysydd Parcio**<br>Mae rhai gwirfoddolwyr wedi derbyn trwyddedau parcio yng Nghaeriw ond nid yw'n glir sut y cânt eu dyrannu a phwy sy'n gyfrifol am eu dyrannu bob blwyddyn. Mae gan rai safleoedd drwyddedau ar gael i'w casglu am gyfnod sesiwn gwirfoddoli, ond nid yw hyn bob amser yn ymarferol. Mae natur rhai o'r Swyddi Gwirfoddoli yn golygu y byddai'n fwy cost-effeithiol darparu trwydded yn uniongyrchol i'r gwirfoddolwr i'w chadw. Does dim cysondeb ar hyn o bryd. | JA – Adolygu'r polisi ar ddarparu trwyddedau parcio fel rhan o'r adolygiad ehangach |
| **Gwisg**<br>Gellir ystyried darparu siaced gnu ychwanegol os oes gan wirfoddolwr sawl rôl (gall siacedi gael eu difrodi'n hawdd yn ystod gwaith ymarferol, ond mae angen gwisg smart mewn swydd sy'n ymwneud â'r cyhoedd).<br>Mae'r wisg bellach yn cael ei golchi a'i hailddefnyddio os caiff ei dychwelyd mewn cyflwr da.<br>Nid yw gwirfoddolwyr eisiau gwisg neillrywiol gan nad yw'n ffitio siapiau corff menwyod ac am ei fod yn anymarferol. Mae'n bosibl y bydd angen samplau i wirio meintiau, gan fod maint dillad y menywod yn anghyson. | SB – A yw'r holl barciau'n defnyddio'r un cyflenwr? A fyddai modd gwneud arbedion effeithlonrwydd o ran costau drwy wneud hyn?<br><br>SB – Cwrdd ag Angela Dooner i symleiddio'r broses archebu gwisgoedd |
| **O Lan i Lan**<br>Pryder blaenorol am ddiffyg lle oherwydd y fformat. Cadarnhaodd JA fod yr holl ddigwyddiadau wedi'u rhestru a bod disgwyl iddynt gael eu cynnal dros y Pasg.<br>Mae llai o Deithiau Ystlumod a digwyddiadau eraill yn cael eu cynnal, sy'n ffynhonnell incwm dda yn ystod cyfnodau anodd. Nid yw'r cynnydd mewn prisiau yn effeithio ar y galw.<br>Hefyd, a fydd Parcmyn Haf yn cael eu cyflogi eleni? Dim hysbysebion | |

## 4. Diweddariadau APCAP

| | |
|---|---|
| **Hyfforddiant**<br>**Aflonyddu Rhywiol** – Yn dilyn Deddfwriaeth newydd yn 2024, mae gan APCAP ddyletswydd gofal ac mae'n rhaid iddynt gymryd camau rhesymol i atal Aflonyddu Rhywiol. Gofynnir i'r holl staff a gwirfoddolwyr fynychu hyfforddiant wyneb yn wyneb sy'n cael ei gynnal dros y 6 mis nesaf. Bydd yr hyfforddiant yn annog trafodaeth agored a bydd yn cael ei anelu at fod yn hygyrch ar gyfer galluoedd gwahanol.<br><br>**Dadansoddi Anghenion Hyfforddi** – Bydd y gwaith yn cael ei wneud gan y gwasanaethau pobl yn ystod y misoedd nesaf, a bydd yn cynnwys MiDAS a Chymorth Cyntaf<br><br>**Cymorth Cyntaf** – Yn dilyn hyfforddiant diweddar, mae'n bosibl y bydd angen diweddaru pecynnau cymorth cyntaf ac adolygu pwy ddylai fod yn cario un, a phryd. Mae Tom Iggleden wedi diweddaru rhai. | JA – Adolygiad o ddarpariaeth hyfforddiant fel rhan o'r adolygiad ehangach<br><br>JA – Bydd y Polisi Cymorth Cyntaf yn cael ei gyflwyno gerbron y Grŵp Iechyd a Diogelwch ar 8 Ebrill |
| **Swyddi Gweinyddol**<br>Mae JA yn falch bod Emyr, y gwirfoddolwr gweinyddol newydd, wedi dechrau gyda Gwasanaethau Pobl. Bydd yn gwirfoddoli'n wythnosol am gyfnod penodol er mwyn cyflawni ei nodau. Mae ail wirfoddolwr wedi dechrau gweithio gydag Ymddiriedolaeth Arfordir Penfro, sy'n fater cyffrous iawn. | |
| **Diweddariad Joy Arkley**<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod i'r holl staff yr wythnos diwethaf, gyda'r brif thema'n ymwneud â sefyllfa ariannol y sefydliad. Mae'r gyllideb wedi bod yn sefydlog dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, sy'n ostyngiad mewn termau real. Mae nifer o bethau anhysbys a fydd yn effeithio ar y costau e.e. Cynnydd Yswiriant Gwladol, Setliad Tâl, a chyllid Llywodraeth Cymru. Mae arweinwyr wedi cytuno i gydbwyso'r gyllideb 26/27, ond bydd angen mynd i'r afael â'r diffyg drwy dorri costau a cheisio cadw swyddi yn y lle cyntaf.<br><br>Fel y gwyddoch, fe wnaeth Rebecca Evans adael ym mis Rhagfyr ac mae hi nawr yn gweithio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bydd JA yn ôl-lenwi'r swydd fel rhan o'r adolygiad Gwirfoddoli a fydd yn dechrau ym mis Ebrill.<br><br>Mae Anthony Richards yn ymddeol o'i swydd fel Arweinydd Tîm Mynediad a Hawliau Tramwy. Mae'r swydd hon yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.<br><br>Adolygiad o Reolaeth Cefn Gwlad (Cam 1) yn cael ei roi ar waith. Mae ymgeiswyr wedi cael eu cyfweld ar gyfer swyddi Arweinydd | |

| | |
|---|---|
| Tîm. Mae rhestr fer wedi'i llunio ar gyfer swydd Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad a'r Swyddog Technegol a Chontractau.<br>Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ar 3 a 4 Ebrill.<br>Bydd Cam 32 yr Adolygiad yn dechrau drwy benodi Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad<br>Bydd polisïau a gweithdrefnau Gwirfoddoli yn cael eu hadolygu yn ystod yr wythnosau nesaf. | |
| **Cynrychiolwyr**<br>Os nad oes Cynrychiolydd ar gael ar gyfer y Fforwm, a fyddai dirprwy'n hoffi ymuno yn ei le?<br>Dyma'r cynrychiolwyr presennol:<br>Wardeiniaid Gwirfoddol y gogledd – Granville Watson<br>Wardeiniaid Gwirfoddol y gogledd-orllewin – Dave Fisher<br>Wardeiniaid Gwirfoddol y de – Sally Ross a Julian Stanton (dirprwy)<br>Wardeiniaid Gwirfoddol y de-orllewin – Dim Cynrychiolydd<br>Monitro bywyd gwyllt – Ellie Sherwin a Julian Stanton<br>Caeriw – Helen Clarke<br>Llwybrau – Jon King<br>Roots2Recovery – Jan Milward<br>Llwybrau troed - Helen Clarke<br>Teithiau Iechyd – Gordon Lewis ac Ellie Sherwin<br>Gweithgareddau a Digwyddiadau – Gordon Lewis<br>Treftadaeth – Dave Fisher<br>Oriel y Parc – Dim Cynrychiolydd<br>Castell Henllys – Dim cynrychiolydd | Cynrychiolwyr – Siarad â grwpiau i weld a fyddai unrhyw un yn hoffi helpu. |
| **Cadw Trefn**<br>**Ffurflenni Milltiroedd** –<br>• Mae'r ffurflen ar gael yn yr adran Ffeiliau ar Better Impact.<br>• Er mwyn edrych ar yr "ôl troed carbon", rhaid gwirio maint injan pob cerbyd o hyn ymlaen.<br>• Ar y ffurflen, dylid cynnwys enw'r rheolwr llinell a fydd yn awdurdodi treuliau. | SB – Diweddaru'r ffurflen milltiroedd a'i hychwanegu at Better Impact |
| | |

## 5. Unrhyw fater arall

| | |
|---|---|
| **Cerrig Camu yng Nghaeriw**<br>Mae'r cerrig hyn wedi suddo ac maent yn sigledig. Er bod arolwg wedi'i gynnal, nid oes gwaith wedi'i wneud eto. Byddai damwain yn adlewyrchu'n wael ar y parc. | SB – Sôn wrth Libby |